

## **CYNGOR SIR**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Iau, 30 Mai 2019 am 10.00 am.

### **YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies (Cadeirydd), Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Alan James (Is-Gadeirydd), Brian Jones, Pat Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Richard Mainon, Christine Marston, Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Anton Sampson, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams, David Williams, Emrys Wynne a Mark Young

### **HEFYD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr (JG), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Pharth y Cyhoedd (GB), Pennaeth Gwasanaethau Cyfriethiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Pennaeth Cyllid/Swyddog A.151 (RW) a Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP).

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Hugh Irving, Huw Jones, Geraint Lloyd-Williams a Peter Scott.

#### **2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol ag eitem rhif 4 ar y rhaglen : Gweithredu Model Darparu Amgen (MDA) ar gyfer Amrywiol Weithgareddau / Swyddogaethau Cysylltiedig â Hamdden:

Y Cynghorydd Gwyneth Kensler – gan ei bod yn ysgrifenyddes i Theatr Twm o'r Nant. Roedd y theatr wedi derbyn cefnogaeth gan hamdden ar gyfer y cynllun 'Night Out – Noson Allan' a chymorth gan dîm technegol Theatr y Pafiliwn. Yn ogystal, roedd ei gŵr yn aelod o un o ganolfannau hamdden y Cyngor.

Y Cynghorydd Joseph Welch – gan fod ei blant yn defnyddio'r gwasanaethau hamdden a ddarperir gan y Cyngor.

Y Cynghorydd Emrys Wynne – gan ei fod yn aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Brynhyfryd. Roedd y cysylltiad personol yn ymwneud â defnydd yr ysgol o gyfleusterau Canolfan Hamdden Rhuthun yn ystod oriau ysgol.

Datganwyd cysylltiadau personol gan y Cynghorwyr Gareth Davies, Rachel Flynn a Paul Penlington oherwydd eu haelodaeth i Hamdden Sir Ddinbych.

Gofynnodd y Cynghorydd Tony Flynn a oedd ei rôl flaenorol fel Cyfarwyddwr Hamdden Clwyd yn cyfrif fel cysylltiad personol? Dywedodd y Swyddog Monitro, gan nad oedd Hamdden Clwyd bellach yn bodoli nid oedd y rôl yn cyfrif fel cysylltiad personol o dan y Cod Ymddygiad.

### **3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Nid oedd unrhyw fater bryd.

### **4 CYFLWYNO MODEL DARPARU AMGEN (MDA) AR GYFER AMRYWIOL WEITHGAREDDAU/SWYDDOGAETHAU CYSYLLTIEDIG Â HAMDDEN**

Cyn parhau â'r eitem hon, talodd y Cynghorydd Bobby Feeley deyrnged i'r tîm etholiad a oedd yn gyfrifol am redeg yr etholiadau diweddar i Senedd Ewrop yn effeithlon. Cefnogodd y Cynghorydd Arwel Roberts y sylwadau gan y Cynghorydd Feeley.

Cyflwynodd y Cynghorwyr Bobby Feeley a Julian Thompson-Holl yr adroddiad ar y cyd yn ceisio barn y Cyngor mewn perthynas â'r Achos Busnes drafft (Atodiad A) ar gyfer sefydlu Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol (LATC), ar gyfer ystod o weithgareddau/ swyddogaethau "mewn cwmpas" a gytunwyd arnynt yn flaenorol yn ymwneud â hamdden.

Adroddodd y Cynghorydd Feeley ar y gwasanaethau a oedd wedi 'gwella'n aruthrol' a'r gwelliannau a gyflawnwyd mewn perthynas â chyfleusterau a gweithgareddau hamdden Sir Ddinbych dros y 10 mlynedd diwethaf. Amlinellodd rai o'r cyfleusterau newydd a gwell a dywedodd bod cyfanswm y cymhorthdal i gefnogi gwasanaethau hamdden oddeutu yr un fath ag yr oedd yn 2012. Nododd fod llawer o'r gwelliannau wedi'u sicrhau'n defnyddio adnoddau presennol neu fenthyca a hunan ariannwyd i fuddsoddi mewn cyfleusterau newydd neu well.

Darparwyd yr Aelodau â manylion am y Bwrdd a fyddai'n goruchwylio Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol ynghyd ag aelodaeth ddangosol o'r Bwrdd hwnnw. Tynnodd y Cynghorydd Feeley sylw at y trefniadau arfaethedig a fyddai'n caniatáu i'r Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol fod yn llwyddiannus a pharhau i ffynnu mewn amgylchedd masnachol wrth ddiogelu a chadw buddion y Cyngor a rheolaeth o Hamdden Sir Ddinbych.

Adroddodd y Cynghorydd Thompson-Hill ar y rhesymau ariannol dros sefydlu Model Darparu Amgen, rhagwelwyd y byddai'r model hwn yn darparu arbedion sylweddol ar gyfer y Cyngor wrth alluogi'r gwasanaeth i fasnachu'n fwy masnachol er mwyn helpu i gynnal cyfleusterau ar gyfer y dyfodol. Yn gryno, amcangyfrifwyd bod yr arbedion oddeutu £1,107k gydag arbedion mawr mewn perthynas â Threthi Annomestig Cenedlaethol a thaliadau TAW. Ar ôl amlinellu'r costau hysbys ac arian at raid, amcangyfrifwyd y byddai'r arbedion blynyddol net yn ystod y flwyddyn gyntaf yn £800k. Ar hyn o bryd, mae'r cyfleusterau a'r gwasanaethau "mewn cwmpas", hynny yw, y rhai y cynigir eu trosglwyddo i'r Cwmni Masnachu Awdurdod

Lleol, yn derbyn cymhorthdal y Cyngor o oddeutu £3 miliwn y flwyddyn ond y byddai'r cymhorthdal yn cael ei leihau drwy'r arbedion a gyflawnir gan y model Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan yr Aelodau:

- Bydd yr adeiladau / tiroedd a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer darparu'r gwasanaethau hamdden "mewn cwmpas" yn cael eu prydlesu i'r Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol ar rent pitw am gyfnod o 10 mlynedd. Bydd darpariaeth yn cael ei gwneud o fewn y prydlesi i ddiogelu'r cytundebau lefel gwasanaeth presennol gydag ysgolion, a chynnal y fynedfa bresennol i'r adeiladau ar gyfer etholiadau, gofynion argyfwng ac ati.
- Y gwersi a ddysgwyd o brofiad Sir Ddinbych o ddefnyddio Hamdden Clwyd i reoli cyfleusterau a'r rhai o brofiadau awdurdodau lleol eraill o Fodelau Darparu Amgen.
- Y lefel o sicrwydd a'r risg mewn perthynas â chyflawni arbedion drwy ostyngiadau i Drethi Annomestig Cenedlaethol a thaliadau TAW a'r risg i'r model pe bai deddfwriaeth yn newid yn y dyfodol ac yn atal yr arbedion a ragolygwyd rhag cael eu gwireddu. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y risgiau hyn yn bodoli ac eu bod wedi cael eu archwilio o fewn yr achos busnes. O ganlyniad i'r Cyngor yn cadw perchnogaeth, byddai'r cytundeb prydles yn darparu ar gyfer adennill asedau Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol drwy'r Cyngor dan amodau penodol.
- Cadarnhawyd y byddai staff sy'n cael eu heffeithio yn cael eu trosglwyddo i'r Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol dan reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau Diogelu Cyflogaeth ac yn destun yr un telerau ac amodau â staff eraill yn Sir Ddinbych. Esboniodd Pennaeth y Gyfraith, oherwydd y byddai'r Cyngor yn berchen ar y cwmni, ni fyddai Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol yn gallu amrywio tâl ac amodau ei staff, byddai'r tâl a'r amodau'r un fath â'r hyn sydd yn berthnasol i'r rhai a gyflogir yn uniongyrchol gan y Cyngor, heb gytundeb y Cyngor, a oedd yn annhebygol iawn o gael ei roi. Yn ychwanegol, dywedodd, gan y byddai'r Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol yn eiddo i'r Awdurdod, gallai unrhyw wahaniaeth o ran tâl ac amodau arwain at hawliadau tâl cyfartal gan staff a oedd o ganlyniad ag amodau a thâl llai ffafriol. Roedd y ddarpariaeth her gyfreithiol hon am dâl cyfartal yn rheswm arall pam y byddai'r un tâl ac amodau yn cael eu cynnal gan Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol a'r Cyngor.
- Roedd cyfleoedd posibl i Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol fasnachu'n fasnachol i werth hyd at 20% o'i drosiant blynyddol ac i ychwanegu gweithgareddau neu swyddogaethau eraill i Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol yn y dyfodol pe bai'r model mor llwyddiannus â'r disgwyl. Nid oedd yr agweddau hyn wedi'u cynnwys yn y cynllun busnes gan mai'r bwriad ar y pwynt hwn oedd canolbwyntio ar sefydlu Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol yn llwyddiannus.
- Y manteision i'r Cyngor o gadw'r elw a wnaed gan ei wasanaethau hamdden ei hun a redir gan Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol, yn hytrach na bod y gwasanaethau hamdden hyn yn cael eu darparu gan weithredwr masnachol allanol.
- Yn dilyn cyfnod pontio i baratoi ar gyfer trosglwyddo gwasanaethau, bwriedir i Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol gael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2020.

Ar y pwynt hwn cymerodd yr aelodau egwyl ac ar ôl ailddechrau'r cyfarfod, ystyriodd yr aelodau wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod.

#### **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** o dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, bydd y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol ar sail y bydd yn cynnwys datgelu gwybodaeth wedi'i gwahardd fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 a 14 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf.

Adolygodd yr aelodau'r trefniadau staffio uwch arfaethedig a'r prosesau penodi ar gyfer Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr byddai'r cynigion yn gofyn am ailstrwythuro staff a threfniadau rheoli ac y byddai'n hysbysu'r aelodau o unrhyw newidiadau.

(Ar y pwynt hwn agorwyd y cyfarfod unwaith eto).

**PENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn:

- (i) Cefnogi Achos Busnes terfynol y Prosiect;
- (ii) Rhoi cefnogaeth i sefydlu Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol cyfyngedig drwy Warrant (LATC) nid er elw;
- (iii) Cefnogi penodiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus i Fwrdd y Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol;
- (iv) Rhoi cefnogaeth i gadw'r enw presennol 'Hamdden Sir Ddinbych' i'r Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol; a .
- (v) Chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 564, Cyf. 564) fel rhan o'i ystyriaethau.

Cymerodd Aelod Arweiniol Cyllid, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, y cyfle i nodi bod y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151, Richard Weigh, yn gadael Cyngor Sir Ddinbych ac mai hwn oedd ei gyfarfod olaf gyda'r Cyngor Llawn. Cymeradwyodd gyfraniad a llwyddiannau Mr Weigh, wedi iddo ymgymryd â rôl anodd mewn hinsawdd ariannol heriol. Cefnogodd yr Aelodau'r deyrnged gan y Cynghorydd Thompson-Hill.

#### **5 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR**

Cyflwynodd Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd raglen gwaith i'r dyfodol y Cyngor (dosbarthwyd eisoes). Cytunodd yr Aelodau i ohirio Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu o gyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf i'r cyfarfod ym mis Hydref.

**PENDERFYNWYD** - Yn amodol ar yr uchod, bod y Cyngor yn cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol.